**NODIADAU I ATHRAWON – DARPL i gyd-fynd â sleidiau PowerPoint. (Addaswch y sleidiau i'ch hanghenion chi / oedran y dysgwyr, gan mai canllaw yn unig yw'r nodiadau)**

# Nelson Mandela ac Abertawe

Dr Huw Griffiths a Dr Susan Davis

Nodyn – Mae detholiad o awgrymiadau ar gyfer cwestiynau i athrawon eu gofyn wedi'u nodi mewn glas isod:

| | |
|---|---|
| **Sleid 1** | Sleid clawr |
| **Sleid 2** | Canllaw ar sut i ddefnyddio sleidiau ppt |
| **Sleid 3** | Beth yw'r cysylltiad rhwng y canlynol?<br>1. Abertawe, Cymru<br>2. Rygbi<br>3. Nelson Mandela<br>4. Apartheid<br>5. De Affrica |
| **Sleid 4** | Mae'r sleid hon yn dangos adroddiad newyddion gan y BBC am 'Frwydr Abertawe'<br><br>Dechreuodd yr hyn a ddaeth i gael ei galw'n 'Frwydr Abertawe' ar 15 Tachwedd 1969. Trodd y gêm o rygbi, gêm genedlaethol Cymru, yn faes y gad, pan roedd tîm rygbi'r Springboks o Dde Affrica i fod chwarae yn erbyn Cymru ar faes rygbi San Helen yn Abertawe.<br><br>Trodd gwrthdystio heddychlon yn erbyn y gêm gan brotestwyr gwrth-apartheid yn dreisgar a chafodd cannoedd eu hanafu neu eu harestio. Roedd adroddiadau newyddion ar y pryd yn awgrymu bod y tîm o Gymru wedi cyflogi *vigilantes*, a oedd wedi derbyn cyfarwyddyd i ymladd â'r gwrthdystwyr. Gwnaeth 'Brwydr Abertawe' greu braw nid yn unig yn y byd chwaraeon ond yn y byd gwleidyddol hefyd.<br><br>Dywedodd James Callaghan, yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd ac a ddaeth yn Brif Weinidog yn ddiweddarach, wrth y Senedd fod yr ymddygiad yn Abertawe wedi achosi 'anesmwythder cyhoeddus'. Bu protestiadau mwy o faint yn ystod taith y Springboks yn y DU ac roedd pob gêm yn cael ei chwarae mewn awyrgylch lle roedd ymdeimlad o drais a lle roedd plismyn i'w gweld yn amlwg ond ni welwyd yr un lefel o drais ag a fu yn Abertawe. |
| **Sleid 5** | Mae'r sleid hon yn cynnwys delwedd, yn dangos protestwyr yn dal arwyddion yn erbyn Apartheid.<br>Beth mae dysgwyr yn ei wybod am Apartheid? Beth maen nhw'n meddwl oedd Apartheid? |
| **Sleid 6** | Roedd Peter Hain, aelod seneddol Castell-nedd a'r Arglwydd Hain yn ddiweddarach, yn un o gefnogwyr allweddol y mudiad gwrth-apartheid yng Nghymru. Pan ddigwyddodd y protestio yn Abertawe, roedd yn fyfyriwr 19 oed ac eisoes yn |

| | |
|---|---|
| | ymgyrchydd gwrth-hiliaeth selog. Gwnaeth helpu i dynnu sylw at yr anghyfiawnderau erchyll a oedd i'w gweld yn Ne Affrica yn ystod Apartheid. Roedd Peter Hain yn sôn wrth y byd ac wrth fyd rygbi Cymru am yr erchyllterau a oedd yn digwydd ond, bryd hynny, nid oedd rygbi Cymru yn gwrando. Roeddent am ganolbwyntio ar y gêm, yn hytrach na'r erchyllterau yn Ne Affrica. Fel y dywedodd Peter Hain :-<br><br>"A dweud y gwir, sgwrs gyda phobl a oedd yn fyddar oedd hi, rhwng protestwyr gwrth-apartheid, a chwaraewyr a gwylwyr y gêm. Fe wnaethon ni geisio ymgysylltu â nhw i ddweud eu bod yn cefnogi'r system waethaf a mwyaf hiliol yn y byd, ond roedden nhw'n meddwl ein bod ni'n ymyrryd â'u gêm – ac roedden nhw wir yn ein casáu ni." (Lloyd, M. 2019) |
| **Sleid 7** | **Sleid yn darlunio'r Gyfundrefn Apartheid.**<br><br>System o wahanu hiliol oedd Apartheid a oedd yn bodoli yn Ne Affrica o 1948 hyd at ddechrau'r 1990au. Yr oedd yn ideoleg wleidyddol a diwylliannol a oedd yn seiliedig ar y syniad bod pobl wyn yn well na phobl Ddu neu Frown. Sicrhaodd y drefn hon fod De Affrica yn cael ei llywodraethu yn wleidyddol, yn gymdeithasol, ac yn economaidd gan boblogaeth wyn leiafrifol y genedl. Dyfeisiodd y gwleidyddion gwyn system lle roedd dinasyddion yn cael eu dosbarthu yn ôl eu statws, yn ôl yr hwn roedd y statws uchaf gan ddinasyddion gwyn, yna'r Asiaid a 'Phobl o Liw' (pobl o hil cymysg neu bobl â chroen o liw goleuach), yna'r bobl Ddu Affricanaidd ar y gwaelod. Mae etifeddiaeth economaidd ac effeithiau cymdeithasol a diwylliannol Apartheid yn parhau hyd heddiw.<br><br>Cadwyd dinasyddion De Affrica ar wahân gan liw eu croen a'u gwahanu i gyfleusterau cyhoeddus a digwyddiadau cymdeithasol ar wahân. Roeddent yn cael eu rhannu i ardaloedd penodol lle gallent fyw a gweithio. Pobl Dduon De Affrica wnaeth ddioddef fwyaf o'r system greulon hon a bu llawer yn byw eu bywydau mewn tlodi ac ofn enbyd. Ceir rhagor o wybodaeth am y gyfundrefn Apartheid yn yr adran 'darllen pellach'. |
| **Sleid 8** | **Nelson Mandela**<br><br>Nelson Mandela oedd arweinydd y Gyngres Genedlaethol Affricanaidd (ANC). Roedd yn cael ei ystyried yn derfysgwr gan lywodraeth De Affrica ac fe'i anfonwyd i garchar am 27 mlynedd. Trwy ei garcharu, bu ei ddedfryd yn fodd o ddod ag amlygrwydd rhyngwladol i frwydrau Pobl Dduon De Affrica. Cafodd ei ryddhau o'r diwedd yn dilyn pwysau rhyngwladol yn 1990. Wedi iddo gael ei ryddhau o'r carchar, gweithiodd yn ddiflino i ddod ag Apartheid i ben. Ymhen hir a hwyr, roedd pawb yn Ne Affrica yn cael pleidleisio erbyn 1994. Enillodd Nelson Mandela yr etholiad hwn a daeth yn arlywydd De Affrica.<br><br>Ymwelodd Nelson Mandela â Chymru ym 1998, lle cyfarfu â Peter Hain a chanmol cyfraniad pobl Cymru i'r frwydr yn erbyn Apartheid.<br><br>Sut wnaeth pobl Cymru gefnogi'r frwydr yn erbyn Apartheid? Beth wnaethon nhw? Gall dysgwyr wneud gwaith ymchwil i ddarganfod beth wnaethon nhw. |
| **Sleid 9** | Sut mae pethau wedi newid – |

| | |
|---|---|
| | Yn 2019, hanner can mlynedd ar ôl 'Brwydr Abertawe', cafodd tîm Springboks De Affrica eu capten rygbi Du cyntaf, pan bennwyd Siya Kolisi yn gapten. Aeth ymlaen i arwain y tîm i fuddugoliaeth yng Nghwpan Rygbi'r Byd yn 2019 yn erbyn Lloegr. |

**Darllen Pellach a Awgrymir:**


Gwybodaeth am yr Arglwydd Peter Hain a chyhoeddiadau -https://peterhain.uk/about-peter/
Brwydr Abertawe' : https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/swansea-rfc-south-africa-apartheid-19955879

Gwybodaeth am Apartheid yn Ne Affrica:
https://www.bbc.co.uk/programmes/p0160mtw

Lloyd, M. (2019, ar-lein ) Rygbi ac Apartheid: 50 mlynedd ar ôl 'Brwydr Abertawe'
https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50422755

Van Wyk, C., Mandela, N., (2014) Talfyredig. Long Walk to Freedom: Illustrated children's edition. Llundain: Macmillan Children's Books; Prif Argraffiad y Farchnad.